**PWYLLGOR CRONFA BENSIWN CLWYD**
**23 MEHEFIN 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Gwener, 23 Mehefin 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Hughes (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Billy Mullin, Ralph Small, Haydn Bateman

**AELODAU CYFETHOLEDIG**: Y Cynghorydd Huw Llewelyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych) a'r Cynghorydd Trevor Bates (yn sefyll i mewn ar ran Nigel Williams)

**YMDDIHEURIADAU:** Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Cynghorydd Andrew Rutherford (Cynrychiolydd Cynllun Arall y Cyflogwr), Cynghorydd Ron Hampson, Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Debbie Fielder (Rheolwr Cyllid Pensiynau), Alwyn Hughes (Rheolwr Cyllid Pensiynau), Colin Everett (Prif Weithredwr), Paul Middleman (Actiwari'r Cynllun – Mercer).

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Gaynor Brooks (Cynrychiolydd Aelodau Bwrdd Cyllid Pensiynau Clwyd)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Panel Cynghori yn cynnwys: Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Philip Latham (Rheolwr Cronfa Bensiwn Clwyd), Karen McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol - Aon Hewitt), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa - Grŵp JLT)

Swyddogion/Ymgynghorwyr yn cynnwys: Helen Burnham (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), Nick Buckland (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Grŵp JLT), Nikki Gemmell (Actiwari Cynorthwyol – Mercer) a Sarah Spall (Cynorthwyydd Ymgynghorol – Mercer) a oedd yn cymryd y cofnodion.

Cyn dechrau'r cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd newydd i bawb gyflwyno eu hunain oherwydd bod aelodau newydd wedi ymuno â Phwyllgor y Gronfa Bensiwn. Soniodd Haydn Bateman bod y Cynghorydd Ron Hampson yn wael iawn a gofynnodd a fyddai'n bosibl anfon cerdyn gwellhad buan ato ar ran Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd

## 70. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS GWRTHDARO BUDDIANNAU)

Rhoddodd Mrs McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol – Aon Hewitt) gyflwyniad ar Bolisi Gwrthdaro Buddiannau a chofrestr datganiadau o fuddiant y Gronfa Bensiwn. (Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad i'r aelodau). Fe esboniodd bod yn rhaid i holl Aelodau a swyddogion y Pwyllgor gwblhau ffurflenni datganiadau o fuddiant. Esboniodd bod angen i Gynghorwyr wneud hyn yn ogystal â'r gofynion datganiadau o fuddiant sydd wedi'u cynnwys yng Nghod Ymddygiad y Cyngor.

Dywedodd Mrs McWilliam bod angen i aelodau'r Pwyllgor Cronfa Bensiwn fod yn ystyriol o wrthdaro buddiannau posibl wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Clwyd, gan gynnwys:

- Bob tair blynedd cynhelir prisiad actiwaraidd o'r Gronfa Bensiwn ac os nad oes digon o arian yn y Gronfa, yna gallai fod angen i gyfraniadau'r cyflogwr gynyddu. Mae'n rhaid i gyflogwyr ystyried fforddiadwyedd a beth fydd yr effaith ar eu cyllidebau. Yn benodol, mae'n rhaid i gynghorwyr wisgo dwy het; eu rôl ar y Pwyllgor yw diogelu'r Gronfa Bensiwn yn hytrach nac ystyried yr effaith ar eu cyllidebau unigol yn y Cyngor.

- Mae'n rhaid iddynt weithredu er budd gorau'r aelodau e.e. os oes cyfle i fuddsoddi mewn adeilad newydd yn y Cyngor yna mae'n rhaid iddynt wneud yn siŵr bod hyn yn briodol i'r Gronfa Bensiwn yn hytrach na'r Cyngor.

Mae'r gofynion polisi hefyd yn berthnasol i'r swyddogion a'r ymgynghorwyr (e.e. dylai ymgynghorwyr buddsoddi fod yn agored a thryloyw wrth ddarparu cyngor a allai arwain at fwy o fusnes i'w cwmni).

Dosbarthodd Mr Latham (Rheolwr Cronfa Bensiwn Clwyd) y ffurflenni datganiadau o fuddiant.

Holodd y Cynghorydd Small ynglŷn ag aelodau teulu sy'n gweithio i Gyngor Sir y Fflint ac a oedd angen eu datgan. Dywedodd Mrs McWilliam bod angen eu datgan oherwydd gallent fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (neu gallent fod yn gymwys yn y dyfodol).

Gwnaeth y Cynghorydd Llewelyn Jones ddatganiad o fuddiant personol fel aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd ar gyfer pob eitem.

**71. <u>COFNODION</u>**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2017.

**<u>PENDERFYNIAD</u>**:

Cytunwyd y gallai'r Cadeirydd dderbyn, cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion fel cofnod cywir.

**72. <u>PENODI IS-GADEIRYDD</u>**

Cyflwynwyd y Cynghorydd Bateman gan y Cynghorydd Mullin i fod yn Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Small a chymeradwywyd hyn gan y Pwyllgor cyfan.

## 73. DIWEDDARIAD AR GRONFA BENSIYNAU CLWYD.

Rhoddodd Mr Latham ddiweddariad ar y Gronfa Bensiwn. Dywedodd ei fod wedi lleihau'r nifer o adroddiadau o dan yr eitem hon ar yr agenda o ystyried yr aelodau newydd i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ond dywedodd y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys fel rhan o hyfforddiant y Pwyllgor.

Gofynnodd Mr Latham a oedd pawb ar gael ar 19 Gorffennaf ar gyfer diwrnod cyntaf yr hyfforddiant ar Lywodraethu; cadarnhaodd yr holl aelodau eu bod ar gael. Cynhelir yr ail ddiwrnod hyfforddi yn yr wythnos yn dechrau 24 Gorffennaf, a bydd Actiwari'r Gronfa yn cynnal yr hyfforddiant hwn.

Dywedodd Mr Latham wrth y Pwyllgor bod 86% o'r Gronfa Bensiwn wedi'i hariannu ar 31 Mawrth 2017, o ganlyniad i elw cadarnhaol ar fuddsoddiadau. Dywedodd Nikki Gemmell (Actiwari Cynorthwyol – Mercer) bod y sefyllfa ariannu wedi gwella ymhellach o'r sefyllfa a nodwyd yn y papurau – roedd y sefyllfa ariannu yn 89% ar ddiwedd Mai ac roedd wedi'i ariannu tua 90% yn y dyddiau diwethaf. Dywedodd Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Grŵp JLT) mai gwerth asedau'r Gronfa oedd £1.746 miliwn ar ddiwedd Mai. Dywedodd Mr Latham bod y sefyllfa ariannu bresennol ar ei lefel uchaf erioed.

Tynnodd Mr Latham sylw'r Pwyllgor at y mater ar dudalennau 32/33 y papurau am eu bod yr un fath; nododd bod tudalen 32 yn anghywir. Dywedodd bod hyn yn ymwneud â'r gwaith parhaus o fonitro Rheolwyr y Gronfa ac nad oedd unrhyw beth arwyddocaol i'w ddatgan yn y cyfarfod.

Dosbarthodd Mr Latham ddogfen gan LAPF Investments ynglŷn â chyfuno a allai fod yn ddefnyddiol i'r aelodau. Bydd Mr Latham a'r Cadeirydd yn teithio i Gaerdydd ddydd Iau i fynychu cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor Llywodraethu. Gelwir Cronfa Cymru yn Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Dywedodd Mr Latham bod gwaith i'w wneud o hyd ar gyfer cynllunio Gweithlu'r Adran Weinyddol ac mae ad-drefnu adnoddau gyda chynlluniau olyniaeth a pharhad busnes yn faterion i'w trafod. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at Atodiad 4 sy'n dangos y strwythur presennol a'r strwythur arfaethedig ar gyfer yr adran Dechnegol. Ychydig iawn o gostau ychwanegol fydd yn cael eu creu yn dilyn yr ailstrwythuro.

Gofynnodd y Cynghorydd Bateman pwy oedd y Swyddog Datblygu Technegol Arweiniol. Cadarnhaodd Mrs Burnham mai swydd newydd oedd hon yn y Tîm Technegol ac y bydd yn cael ei chynnwys yn y tîm presennol. Dywedodd Mrs Burnham bod angen ailstrwythuro hyn cyn gynted â phosibl oherwydd bod rhywun yn ymddeol. Dim ond y Tîm Technegol sy'n cael ei ystyried yn awr ond byddant yn edrych ar y tîm ehangach yn y dyfodol.

Dywedodd Ms Brooks, pe byddai'n fuddiol i aelodau newydd y Pwyllgor, roedd Bwrdd Cronfa Bensiwn Clwyd wedi edrych ar y prosesau cynllunio'r gweithlu o

fewn trefniadau staffio'r Gronfa a'u bod yn cefnogi unrhyw newidiadau a fyddai'n helpu'r tîm i gyflawni gofynion y cynllun busnes.

**PENDERFYNIAD:**

(a) Y byddai'r Pwyllgor yn ystyried y diweddariad ac yn darparu unrhyw sylwadau

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r strwythur sefydliadol diwygiedig ar gyfer y Tîm Technegol a bod penodiad y Swyddog Technegol Arweiniol yn cael ei glustnodi.

**74. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**RESOLVED:**

That the press and public be excluded for the remainder of the meeting for the following item by virtue of exempt information under paragraph 14 of Part 4 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972 (as amended).

**75. CYFARWYDDIAETH MARCHNADOEDD MEWN OFFERYNNAU ARIANNOL II (MIFID II)**

Rhoddodd Mr Harkin ddiweddariad byr ar MIFID II ac yna trosglwyddodd yr awenau i Mr Buckland i drafod y cyflwyniad fel hyfforddiant i'r aelodau newydd, ac i'w esbonio i'r aelodau presennol.  Yna trafododd fanylion y sleidiau.

Amlygodd Mr Buckland y prif bwyntiau allweddol, gan gynnwys eu hysbysu bod cyflwyniad cyfarwyddeb MIFID II wedi'i symud yn ôl i Ionawr 2018 ac y bydd, ar bapur, yn darparu mwy o ddiogelwch i awdurdodau lleol oherwydd y byddant yn cael eu hystyried yn "Gleientiaid Manwerthu" yn hytrach na "Chleientiaid Proffesiynol".  Fodd bynnag, bydd y "dosbarthiad Manwerthu" yn golygu na fydd awdurdodau lleol yn gallu cael mynediad at gynnyrch buddsoddi cymhleth yn awr.  Bydd proses i "camu i fyny" i "statws Proffesiynol", er nad yw manylion y broses wedi'u cadarnhau eto.  Codwyd pryderon ynglŷn â sut y gallai Cronfa Clwyd brofi eu bod yn cyflawni'r meini prawf i camu i fyny i fod yn gleient proffesiynol, ac effaith bosibl hynny.

Dywedodd Mr Buckland bod MIFID II hefyd yn creu goblygiadau i gyfuno oherwydd gallai rhai awdurdodau lleol yn yr un gronfa gael eu hystyried yn gleientiaid proffesiynol ac eraill yn gleientiaid manwerthu.  Nodwyd bod Jeff Houston, o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, wedi codi'r mater na allai Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fuddsoddi mewn seilwaith fel cleientiaid manwerthu, sef un o nodau cyfuno.

Dywedodd Mr Harkin y bydd hyfforddiant mwy manwl ar fuddsoddi yn cael ei drefnu ar fuddsoddiadau ond pe byddai MIFID II yn cael ei weithredu yn unol â'i ddiben gwreiddiol, gallai hyn gael effeithiau difrifol ar gronfeydd a allai achosi i

asedau gael eu gwerthu e.e. ni allai cleientiaid manwerthu fuddsoddi yn rhai o'r asedau eraill (sydd wedi'u rhestru fel asedau gwirioneddol a marchnadoedd preifat ar dudalen 15 y sleidiau).

Gofynnodd y Cynghorydd Bateman a fyddai Brexit yn cael effaith ar MIFID II. Dywedodd Mr Harkin y gallai hyn greu goblygiadau yn y dyfodol ond tra bydd y DU yn parhau i fod yn yr Undeb Ewropeaidd, bydd MIFID II ar waith. Gofynnodd y Cynghorydd Bateman a oedd hyn wedi'i ymgorffori yng nghyfreithiau'r DU; dywedodd Mr Harkin, oherwydd y byddai MIFID II yn weithredol ym mis Ionawr 2018, byddai'r DU yn parhau i fod yn yr Undeb Ewropeaidd ac y byddai hyn yn effeithio arno beth bynnag.

Disgwylir i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) gyflwyno eu hymateb i'r ymgynghoriad erbyn diwedd Mehefin a'r gobaith yw y bydd y weithdrefn camu i fyny yn cael ei symleiddio ac y bydd Cronfa Clwyd mewn sefyllfa dda i wneud hyn.

Dywedodd Mr Latham bod y Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi gweithio gyda rheolwyr y gronfa er mwyn galluogi'r awdurdodau lleol i gael cyfres safonol o ddogfennau, ac er y bydd angen i bob Llywodraeth Leol a Gwasanaeth Cyhoeddus eu cwblhau, byddant yn ddogfennau cyson. Yr argymhelliad yw y bydd Cyngor Sir y Fflint, yn ei rôl fel awdurdod gweinyddol Cronfa Bensiwn Clwyd yn camu i fyny i statws proffesiynol ac y bydd awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr i ddatblygu'r broses o wneud cais gyda rheolwyr ac ymgynghorwyr y gronfa i "camu i fyny" o ran y Gronfa Bensiwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Bateman a fyddai MIFID II yn digwydd yn bendant. Dywedodd Mr Buckland nad oedd wedi clywed unrhyw beth a oedd yn gwneud iddo gredu fel arall. Dywedodd Mr Latham bod hyn wedi cael ei symud yn ôl droeon ond mae Mr Buckland yn credu bod hyn yn digwydd er mwyn sicrhau bod popeth yn cael ei wneud yn gywir.

Gofynnodd Mrs McWilliam y cwestiwn, er y gallai Cronfeydd benderfynu i camu i fyny, a oedd risg o hyd y byddai rheolwyr buddsoddi yn parhau i ystyried y Cronfeydd fel risg iddynt hwy a pharhau i drin Cronfeydd fel cleientiaid manwerthu e.e. cerdded i ffwrdd am nad yw'n werth y baich cydymffurfio uwch. Cytunodd Mr Buckland, y gallai rhai rheolwyr buddsoddi bwtîc gymryd y farn hon.

**PENDERFYNIAD**:

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r effaith bosibl ar y strategaeth fuddsoddi o ddod yn gleient manwerthu a hynny o'r 3ydd Ionawr 2018.

(b) Bod y Pwyllgor yn cytuno i ddechrau'r ceisiadau ar gyfer statws cleientiaid proffesiynol etholedig gyda phob sefydliad perthnasol, cyn gynted ag y bydd llawlyfr yr FCA yn cael ei gymeradwyo, er mwyn sicrhau y gall barhau i weithredu strategaeth fuddsoddi effeithiol.

(c) Drwy ddewis statws cleientiaid proffesiynol, mae’r pwyllgor yn cydnabod ac yn cytuno i hepgor y trefniadau diogelwch sydd ar gael i gleientiaid manwerthu.

(d) Bod y Pwyllgor yn cytuno i gymeradwyo cyfrifoldeb dirprwyedig i’r Prif Weithredwr at ddibenion cwblhau’r ceisiadau a phenderfynu ar sail y cais naill ai fel gwasanaeth llawn neu sengl.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 11:40. Nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig cwblhau’r holl hyfforddiant angenrheidiol am fod hyn wedi bod yn gromlin ddysgu serth.

..................................................

**Cadeirydd**